



## HAF 2023

### **Crynoi'r wybodaeth ymlaen llaw ar gyfer cymwysterau CBAC TGAU, TAG a chymwysterau galwedigaethol penodol i Gymru**

Bwriad y crynodeb hwn yw rhoi syniad i athrawon a dysgwyr pa ddull fydd yn cael ei ddefnyddio i ymdrin â'r wybodaeth ymlaen llaw ym mhob cymhwyster CBAC TGAU, TAG a galwedigaethol penodol i Gymru yn haf 2023. **Nid** y wybodaeth ymlaen llaw ei hun yw'r crynodeb hwn. Bydd y wybodaeth honno'n cael ei rhyddhau ar-lein, ar gyfer pob pwnc, ar **06 Chwefror 2023**.

**Sylwer:** Dim ond ar wefan CBAC y bydd y wybodaeth ymlaen llaw ar gael. Ni fydd ar gael o unrhyw ffynhonnell arall.

### **Pam mae'r crynodeb hwn yn cael ei gyhoeddi cyn rhyddhau'r wybodaeth ymlaen llaw?**

Bwriad gwybodaeth ymlaen llaw yw rhoi gwybod, cyn yr arholiadau, beth fydd ffocws cynnwys yr arholiadau, neu ran o'r arholiadau, **a fydd yn cael ei asesu** yn y papurau arholiad. Pwrpas gwybodaeth ymlaen llaw yw cefnogi'r gwaith adolygu.

Lluniwyd gwybodaeth ymlaen llaw pob cymhwyster i gydymffurfio ag egwyddorion penodol Cymwysterau Cymru:

- ni ddylai'r wybodaeth ymlaen llaw fod mor fanwl fel ei bod yn bosibl i Ddysgwyr ddysgu rhywbeth ar y cof i'w ysgrifennu yn yr arholiad
- ni ddylai'r wybodaeth ymlaen llaw fod mor helaeth a phenodol fel y byddai'n amharu ar unrhyw Ddysgwr yn symud ymlaen i gymwysterau lefel uwch yn y pwnc
- dylai fod yn bosibl o hyd i wahaniaethu rhwng Dysgwyr ar sail eu perfformiad.

Un o ganlyniadau'r egwyddorion sy'n perthyn i'r drefn gwybodaeth ymlaen llaw yw na fydd yn bosibl bob amser rhoi manylion popeth sydd yn yr arholiad. Mewn rhai achosion, mae posibilrwydd y byddai hyn yn tanseilio addysg dda, symud ymlaen, neu ganlyniadau teg; mewn achosion eraill ni fyddai'n helpu athrawon a dysgwyr, er enghraifft drwy restru'r holl destunau a allai arwain at addysgu neu adolygu eithafol ar feysydd sy'n werth ychydig o farciau yn unig. Mae hyn yn golygu felly na fyddai'r wybodaeth ymlaen llaw, er enghraifft, yn berthnasol i rai papurau neu rannau o bapurau mewn rhai pynciau.

Lluniwyd y crynodeb hwn er mwyn helpu athrawon a dysgwyr i ddod i ddeall yn well beth yw rhai o'r cyfyngiadau ar wybodaeth ymlaen llaw (er enghraifft yr hyn y bydd yn ymdrin ag ef ac er mwyn i chi wybod beth i'w ddisgwyl o ran y pynciau rydych chi'n eu haddysgu neu'n eu hastudio), i gynorthwyo â'r gwaith cynllunio cyn rhyddhau'r wybodaeth ymlaen llaw.

## **Pwyntiau allweddol i'w cofio ar gyfer gwybodaeth ymlaen llaw:**

- rhaid ei darllen ynghyd â'r fanyleb gan fod angen deall y wybodaeth yn glir a'i rhoi yn ei chyd-destun cywir
- gall canolfannau ei defnyddio mewn ffordd hyblyg i gyflawni ei bwriad o gefnogi'r gwaith adolygu. Ni ddylid defnyddio gwybodaeth ymlaen llaw, fodd bynnag, i leihau'r addysgu a dysgu
- gall athrawon ei defnyddio i gefnogi gwaith adolygu eu dysgwyr a gall y dysgwyr gyfeirio ati wrth adolygu a pharatoi'n derfynol ar gyfer yr arholiadau
- nid yw'n bosibl mynd â'r wybodaeth i mewn i arholiadau
- ni fydd y wybodaeth ar lefel a fydd yn caniatáu rhagfynegi cwestiynau neu baratoi atebion.

Y ffordd orau bob amser i baratoi i lwyddo mewn arholiad yw meddu ar ddealltwriaeth dda ac eang o holl gynnwys y fanyleb. Dylai athrawon a dysgwyr gofio y gallai dysgwyr gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth ddefnyddiol o ddysgu syniad neu faes testun allweddol yn flaenorol ac y gallai fod angen hynny ar y dysgwyr i ateb cwestiynau'n llawn. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos cwestiynau synoptig<sup>1</sup>, er enghraifft, a'r cwestiynau hynny sy'n defnyddio cynllun marcio lefelau o ymateb i'w marcio.

Wrth baratoi ar gyfer arholiadau, dylai dysgwyr barhau i ganolbwyntio ar wybodaeth a dealltwriaeth sy'n gallu cael eu cymhwyso'n briodol yng nghyd-destun cwestiynau arholiad heb eu gweld. Ni fydd fformat a strwythur y papurau arholiad yn newid, h.y. yn 2023 bydd yr arholiadau'n dilyn y disgrifiad yn y fanyleb berthnasol, heb unrhyw addasiadau na newidiadau.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y wybodaeth sydd wedi'i rhoi yn y ddogfen hon, cysylltwch â [gwybodaeth@cbac.co.uk](mailto:gwybodaeth@cbac.co.uk).

---

<sup>1</sup> Y cwestiynau synoptig yw'r cwestiynau hynny sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr gyfuno gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o'r cwrs astudio llawn.

## Crynodebau o Wybodaeth Ymlaen Llaw CBAC – Haf 2023

Pwnc	Lefel	Crynodeb o'r Wybodaeth Ymlaen Llaw
TGCh Gymhwysol	UG a Safon Uwch	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 1 yn unig</b></li> <li>• darparu rhestr o destunau o'r fanyleb <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> yn yr arholiad, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn cael ei darparu ar lefel 'ffocws' (h.y. y golofn ar y chwith) o gynnwys pwnc y fanyleb ar gyfer Uned 1.</p> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel, dewis lluosog a synoptig.</p>
Gwyddoniaeth Gymhwysol (dwyrradd)	TGAU	<p>Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl gymwysterau CBAC TGAU Gwyddoniaeth.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>unedau 1, 2 a 3</b></li> <li>• darparu rhestr o destunau o'r fanyleb <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> ym mhob papur</li> <li>• rhestru testunau yn eu trefn restrol gyda'r testun â'r nifer mwyaf o farciau yn dod yn gyntaf ar gyfer pob papur.</li> </ul> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw hefyd yn nodi testunau sy'n cynnwys asesiad o waith ymarferol.</p>
Gwyddoniaeth Gymhwysol (gradd unigol)	TGAU	<p>Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl gymwysterau CBAC TGAU Gwyddoniaeth.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 1 ac Uned 2</b></li> <li>• darparu rhestr o destunau o'r fanyleb <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> ym mhob papur</li> <li>• rhestru testunau yn eu trefn restrol gyda'r testun â'r nifer mwyaf o farciau yn dod yn gyntaf ar gyfer pob papur.</li> </ul> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw hefyd yn nodi testunau sy'n cynnwys asesiad o waith ymarferol.</p>
Celf a Dylunio	UG a Safon Uwch	Ni fydd gwybodaeth ymlaen llaw ar gyfer CBAC TAG Celf a Dylunio gan fod deunyddiau asesu'r aseiniad wedi'i osod yn allanol i'w rhyddhau i ddysgwyr o 01 Chwefror 2023.
Celf a Dylunio	TGAU	Ni fydd gwybodaeth ymlaen llaw ar gyfer CBAC TGAU Celf a Dylunio gan fod deunyddiau asesu'r aseiniad wedi'i osod yn allanol i'w rhyddhau i ddysgwyr o 02 Ionawr 2023.

Pwnc	Lefel	Crynodeb o'r Wybodaeth Ymlaen Llaw
Bioleg	UG a Safon Uwch	<p>Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl gymwysterau CBAC TAG Gwyddoniaeth.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>unedau 1, 2, 3, 4 a 5</b></li> <li>• darparu rhestr o destunau o'r fanyleb <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> ym mhob papur</li> <li>• rhestru testunau yn eu trefn restrol gyda'r testun â'r nifer mwyaf o farciau yn dod yn gyntaf ar gyfer pob papur; mae'n bosibl y bydd testunau sydd heb eu cynnwys yn benodol ar y rhestr yn dal i ymddangos ar y papur. Fodd bynnag, ni fydd cymaint o farciau ar gael am y rhain yn gyffredinol â'r hyn sydd ar gael am y rhai ar y rhestr.</li> </ul> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw hefyd yn nodi testunau sy'n cynnwys asesiad o waith ymarferol.</p>
Bioleg	TGAU	<p>Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl gymwysterau CBAC TGAU Gwyddoniaeth.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 1 ac Uned 2</b></li> <li>• darparu rhestr o destunau o'r fanyleb <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> ym mhob papur</li> <li>• rhestru testunau yn eu trefn restrol gyda'r testun â'r nifer mwyaf o farciau yn dod yn gyntaf ar gyfer pob papur</li> </ul> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw hefyd yn nodi testunau sy'n cynnwys asesiad o waith ymarferol.</p>
Amgylchedd Adeiledig	UG	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 1 yn unig</b></li> <li>• darparu rhestr o destunau o'r fanyleb <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> yn yr arholiad, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn cael ei darparu ar lefel 'maes cynnwys' a 'cynnwys' (h.y. y golofn ar y chwith) o gynnwys pwnc y fanyleb ar gyfer Uned 1.</p> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel, dewis lluosog a synoptig.</p>

Pwnc	Lefel	Crynodeb o'r Wybodaeth Ymlaen Llaw
Amgylchedd Adeiledig	TGAU	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 1 yn unig</b></li> <li>• darparu rhestr o destunau o'r fanyleb <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> yn yr arholiad, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn cael ei darparu ar lefel 'maes cynnwys' a 'cynnwys' (h.y. y golofn ar y chwith) o gynnwys pwnc y fanyleb ar gyfer Uned 1.</p> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel, dewis lluosog a synoptig.</p>
Busnes	UG a Safon Uwch	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>unedau 1, 2, 3 a 4</b></li> <li>• darparu rhestr o destunau o'r fanyleb <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> ym mhob papur, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau synoptig.</p>
Busnes	TGAU	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 1 ac Uned 2</b></li> <li>• darparu rhestr o destunau o'r fanyleb <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> ym mhob papur, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau synoptig.</p>
Cemeg	UG a Safon Uwch	<p>Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl gymwysterau CBAC TAG Gwyddoniaeth.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>unedau 1, 2, 3, 4 a 5</b></li> <li>• darparu rhestr o destunau o'r fanyleb <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> ym mhob papur</li> <li>• rhestru testunau yn eu trefn restrol gyda'r testun â'r nifer mwyaf o farciau yn dod yn gyntaf ar gyfer pob papur; mae'n bosibl y bydd testunau sydd heb eu cynnwys yn benodol ar y rhestr yn dal i ymddangos ar y papur. Fodd bynnag, ni fydd cymaint o farciau ar gael am y rhain yn gyffredinol â'r hyn sydd ar gael am y rhai ar y rhestr.</li> </ul> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw hefyd yn nodi testunau sy'n cynnwys asesiad o waith ymarferol.</p>

Pwnc	Lefel	Crynodeb o'r Wybodaeth Ymlaen Llaw
Cemeg	TGAU	<p>Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl gymwysterau CBAC TGAU Gwyddoniaeth.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 1 ac Uned 2</b></li> <li>• darparu rhestr o destunau o'r fanyleb <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> ym mhob papur</li> <li>• rhestru testunau yn eu trefn restrol gyda'r testun â'r nifer mwyaf o farciau yn dod yn gyntaf ar gyfer pob papur.</li> </ul> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw hefyd yn nodi testunau sy'n cynnwys asesiad o waith ymarferol.</p>
Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori	Lefel 3	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 330</b></li> <li>• darparu rhestr o gynnwys y pwnc (h.y. cynnwys ac ymhelaethiad perthnasol) o'r fanyleb <b>a fydd yn cael ei asesu</b> yn yr uned hon, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel neu synoptig.</p>
Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori	Lefel 2	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 216</b></li> <li>• darparu rhestr o gynnwys y pwnc (h.y. cynnwys ac ymhelaethiad perthnasol) o'r fanyleb <b>a fydd yn cael ei asesu</b> yn yr uned hon, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel neu synoptig.</p>
Cyfrifiadureg	UG a Safon Uwch	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>unedau 1, 3 a 4</b></li> <li>• darparu rhestr o gynnwys o'r fanyleb yn ôl y rhan o'r fanyleb a'r testun (h.y. is-benawdau a'r golofn ar yr ochr chwith yn y rhan cynnwys y fanyleb ar gyfer pob uned) <b>a fydd yn cael ei asesu</b> ym mhob papur, yn ôl trefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel, dewis lluosog a synoptig.</p>

Pwnc	Lefel	Crynodeb o'r Wybodaeth Ymlaen Llaw
Cyfrifiadureg	TGAU	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 1 yn unig</b></li> <li>darparu rhestr o gynnwys o'r fanyleb yn ôl y rhan o'r fanyleb a'r testun (h.y. is-benawdau a'r golofn ar yr ochr chwith yn y rhan cynnwys y fanyleb ar gyfer Uned 1) <b>a fydd yn cael ei asesu</b> ym mhob papur, yn ôl trefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel, dewis lluosog a synoptig.</p>
Dylunio a Thechnoleg	UG a Safon Uwch	<p>Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl bapurau CBAC Dylunio a Thechnoleg.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i arholiadau <b>Uned 1 ac Uned 3</b> mewn dylunio peirianyddol, ffasiwn a thecstilau, a dylunio cynnyrch</li> <li>darparu rhestr o destunau (h.y. 'cynnwys' o'r golofn ar y chwith yn y rhan cynnwys y fanyleb ar gyfer pob uned) <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> ym mhob papur, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel a synoptig.</p>
Dylunio a Thechnoleg	TGAU	<p>Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl bapurau CBAC Dylunio a Thechnoleg.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i'r arholiad <b>Uned 1</b> mewn dylunio peirianyddol, ffasiwn a thecstilau, a dylunio cynnyrch</li> <li>darparu rhestr o destunau (h.y. 'cynnwys' o'r golofn ar y chwith yn y rhan cynnwys y fanyleb ar gyfer pob uned) <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> ym mhob papur, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel a synoptig.</p>
Technoleg Ddigidol	UG	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 1 yn unig</b></li> <li>darparu rhestr o gynnwys o'r fanyleb yn ôl y rhan yn y fanyleb a'r testun (h.y. is-benawdau a'r golofn ar y chwith yn y rhan cynnwys y fanyleb ar gyfer Uned 1) <b>a fydd yn cael ei asesu</b> yn yr arholiad, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel, dewis lluosog a synoptig.</p>

Pwnc	Lefel	Crynodeb o'r Wybodaeth Ymlaen Llaw
Technoleg Ddigidol	TGAU	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 1 yn unig</b></li> <li>• darparu rhestr o gynnwys o'r fanyleb yn ôl y rhan yn y fanyleb a'r testun (h.y. is-benawdau a'r golofn ar y chwith yn y rhan cynnwys y fanyleb ar gyfer Uned 1) <b>a fydd yn cael ei asesu</b> yn yr arholiad, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel, dewis lluosog a synoptig.</p>
Drama a Theatr	UG a Safon Uwch	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 2 ac Uned 4</b></li> <li>• ar gyfer Uned 2, nodi darnau estynedig o destun <b>o ble y bydd y darnau'n dod</b> yn yr arholiad*, a nodi maes testun y cwestiwn gwybodaeth ehangach ar gyfer pob testun</li> <li>• ar gyfer Uned 4, Adran A, nodi darnau estynedig o destun <b>o ble y bydd y darnau'n dod</b> yn yr arholiad*</li> <li>• ar gyfer Uned 4, Adran B, nodi ffocws y cwestiynau ar gyfer pob testun.</li> </ul> <p>*Bydd manau cychwyn a gorffen adran o bob testun gosod yn cael eu nodi; bydd y darn penodol ar gyfer pob testun <b>a fydd yn cael ei asesu</b> yn yr arholiad yn dod o'r adran hon.</p>
Drama	TGAU	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 3 yn unig</b></li> <li>• nodi darnau estynedig <b>o ble y bydd y darnau'n dod</b> yn yr arholiad*, a nodi maes testun y cwestiwn gwybodaeth ehangach ar gyfer pob testun.</li> </ul> <p>*Bydd manau cychwyn a gorffen pob adran o bob testun gosod yn cael eu nodi; bydd y darn penodol ar gyfer pob testun <b>a fydd yn cael ei asesu</b> yn yr arholiad yn dod o'r adran hon.</p>
Economeg	UG a Safon Uwch	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>unedau 1, 2, 3 a 4</b></li> <li>• darparu rhestr o gynnwys o'r fanyleb <b>a fydd yn cael ei asesu</b> ym mhob uned, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau eraill gan gynnwys cwestiynau tariff isel, dewis lluosog a synoptig.</p>



Pwnc	Lefel	Crynodeb o'r Wybodaeth Ymlaen Llaw
Saesneg Iaith	UG a Safon Uwch	Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn berthnasol i <b>unedau 1, 2, 3 a 4</b> fel a ganlyn ac yn nodi: <ul style="list-style-type: none"> <li>genre/pwrpas y testunau yn Adran A ac Adran B Uned 1</li> <li>y genres ysgrifennu yn Uned 2</li> <li>genre/pwrpas y testunau yn Uned 3</li> <li>genre/pwrpas trawsgrifiadau yn Adran A Uned 4</li> <li>genre/pwrpas y dasg ysgrifennu creadigol yn Adran B Uned 4.</li> </ul>
Saesneg Iaith	TGAU	Bydd yr un dull yn cael ei ddefnyddio yn haf 2023 ag a ddefnyddiwyd ar gyfer arholiadau Tachwedd 2022.  Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 2 ac Uned 3</b></li> <li>nodi a fydd y cwestiwn darllen cymharu neu grynhoi <b>yn ymddangos</b> yn Adran A yr arholiad Uned 2</li> <li>nodi pa ffurfiau ysgrifennu <b>a fydd yn ymddangos</b> yn Adran B yr arholiad Uned 3.</li> </ul>
Saesneg Iaith a Llenyddiaeth	UG a Safon Uwch	Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn berthnasol i <b>unedau 1, 2, 3 a 4</b> fel a ganlyn ac yn nodi: <ul style="list-style-type: none"> <li>amrediad llai o gerddi, o'r <i>pre-1914 Anthology</i>, yr <b>asesir</b> ymgeiswyr arno yn Uned 1, Adran A</li> <li>mannau cychwyn a gorffen adran o'r testunau gosod <b>o ble y bydd darnau penodol yn dod</b> yn Uned 2, Adran A (drama ar ôl 1900)</li> <li>yr Act <b>o ble y bydd y darn yn dod</b> ar gyfer y testun Shakespeare a ddewiswyd yn Uned 3, Adran A.</li> </ul> <p>Yn ogystal, ar 05 Mai 2023, byddwn yn rhyddhau un o'r tri darn heb ei weld yn Uned 4, Adran A ymlaen llaw.</p>
Llenyddiaeth Saesneg	UG a Safon Uwch	Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn berthnasol i <b>unedau 1, 2, 3 a 4</b> fel a ganlyn ac yn nodi: <ul style="list-style-type: none"> <li>mannau cychwyn a gorffen rhan o'r testun <b>o ble y bydd y darn yn dod</b> yn Uned 1, Adran A rhan (i)</li> <li>rhestr benodol o gerddi ar gyfer pob casgliad, <b>o ble y bydd y gerdd wedi'i henwi yn dod</b> yn Uned 2, Adran A rhan (i)</li> <li>rhestr lai o gerddi/nifer o linellau <b>y bydd</b> asesiad Uned 3, Adran A Rhan (i) <b>wedi'i seilio</b> arnyn nhw</li> <li>yr Act <b>o ble y bydd y darn yn dod</b> yn Uned 4, Adran A.</li> </ul>

Pwnc	Lefel	Crynodeb o'r Wybodaeth Ymlaen Llaw
Llenyddiaeth Saesneg	TGAU	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn berthnasol i <b>Uned 1, Uned 2a ac Uned 2b</b> fel a ganlyn ac yn nodi amrediadau tudalennau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>y testunau rhyddiaith diwylliannau gwahanol <b>o ble y bydd y darnau penodol yn dod</b> yn y cwestiwn ar y darn o destun yn Uned 1, Adran A</li> <li>y testunau drama etifeddiaeth lenyddol <b>o ble y bydd y darnau penodol yn dod</b> yn y cwestiwn darn o destun yn Uned 2a, Adran A</li> <li>y testunau rhyddiaith gyfoes <b>o ble y bydd y darnau penodol yn dod</b> yn y cwestiwn darn o destun yn Uned 2a, Adran B</li> <li>y testunau drama gyfoes <b>o ble y bydd y darnau penodol yn dod</b> yn y cwestiwn darn o destun yn Uned 2b, Adran A</li> <li>y testunau rhyddiaith etifeddiaeth lenyddol <b>o ble y bydd y darnau penodol yn dod</b> yn y cwestiwn darn o destun yn Uned 2b, Adran B.</li> </ul>
Bwyd a Maeth	TGAU	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 1 yn unig</b></li> <li>darparu rhestr o gynnwys o'r fanyleb <b>a fydd yn cael ei asesu</b> yn y papur, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel.</p>
Ffrangeg	UG a Safon Uwch	<p>Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl gymwysterau CBAC TAG ITM.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>adrannau B a C yn Uned 2 ac adrannau B a C yn Uned 4</b></li> <li>nodi'r meysydd o ddiddordeb, themâu ac is-themâu o'r fanyleb y <b>bydd yr asesiad yn canolbwyntio</b> arnyn nhw, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul>
Ffrangeg	TGAU	<p>Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl gymwysterau CBAC TGAU ITM.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 2, Uned 3 ac Uned 4</b></li> <li>nodi'r themâu, is-themâu ac is-is-themâu o'r fanyleb y <b>bydd yr asesiad yn canolbwyntio arnyn nhw</b>, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau</li> <li>ar gael ar gyfer y papurau haen Sylfaenol a haen Uwch.</li> </ul>

Pwnc	Lefel	Crynodeb o'r Wybodaeth Ymlaen Llaw
Mathemateg Bellach	UG a Safon Uwch	<p>Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl fanylebau CBAC TAG Mathemateg a Mathemateg Bellach.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>unedau 1, 2, 3, 4, 5 a 6</b></li> <li>• darparu rhestr o gynnwys o'r fanyleb <b>a fydd yn cael ei asesu</b> ym mhob uned, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul>
Daearyddiaeth	UG a Safon Uwch	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>unedau 1, 2, 3 a 4</b></li> <li>• darparu rhestr o gynnwys 'ffocws' (h.y. y golofn ar y chwith) o gynnwys y fanyleb <b>a fydd yn cael ei asesu</b> ym mhob uned, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p>Ni fydd y wybodaeth ymlaen llaw yn ymdrin ag Uned 2 Adran B (Ymchwiliad Gwaith Maes Ffisegol a Dynol).</p>
Daearyddiaeth	TGAU	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Adran A Uned 1 ac Adran A Uned 2</b></li> <li>• darparu rhestr o gynnwys 'cwestiynau allweddol' (h.y. y golofn ar y chwith) o gynnwys y fanyleb <b>a fydd yn cael ei asesu</b> yn Adran A pob uned, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul>
Almaeneg	UG a Safon Uwch	<p>Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl gymwysterau CBAC TAG ITM.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>adrannau B a C yn Uned 2 ac adrannau B a C yn Uned 4</b></li> <li>• nodi'r meysydd o ddiddordeb, themâu ac is-themâu o'r fanyleb y <b>bydd yr asesiad yn canolbwyntio arnyn nhw</b>, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul>
Almaeneg	TGAU	<p>Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl gymwysterau CBAC TGAU ITM.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 2, Uned 3 ac Uned 4</b></li> <li>• nodi'r themâu, is-themâu ac is-is-themâu o'r fanyleb y <b>bydd yr asesiad yn canolbwyntio arnyn nhw</b>, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau</li> <li>• ar gael ar gyfer y papurau haen Sylfaenol a haen Uwch.</li> </ul>

Pwnc	Lefel	Crynodeb o'r Wybodaeth Ymlaen Llaw
Llywodraeth a Gwleidyddiaeth	UG a Safon Uwch	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 1 (adrannau B a C), Uned 2 (adrannau B a C), Uned 3 (adrannau A a B) ac Uned 4 (adrannau A a B)</b></li> <li>darparu rhestr o gynnwys y pwnc (cysyniadau neu themâu allweddol) o'r fanyleb <b>a fydd yn cael ei asesu</b> yn yr adrannau a nodwyd ym mhob uned, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel neu synoptig.</p>
Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant	UG a Safon Uwch	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>unedau 1, 3 a 5</b></li> <li>darparu rhestr o gynnwys y pwnc (h.y. cynnwys ac ymhelaethiad perthnasol) o'r fanyleb <b>a fydd yn cael ei asesu</b> ym mhob uned, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel.</p>
Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (gradd unigol)	TGAU	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 1 yn unig</b></li> <li>darparu rhestr o gynnwys y pwnc (h.y. cynnwys ac ymhelaethiad perthnasol) o'r fanyleb <b>a fydd yn cael ei asesu</b> yn Uned 1, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel.</p>
Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (dwy'radd)	TGAU	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 1 ac Uned 3</b></li> <li>darparu rhestr o gynnwys y pwnc (h.y. cynnwys ac ymhelaethiad perthnasol) o'r fanyleb <b>a fydd yn cael ei asesu</b> ym mhob uned, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel.</p>
Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Tystysgrif)	Lefel 3	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 2</b></li> <li>darparu rhestr o gynnwys y pwnc (h.y. cynnwys ac ymhelaethiad perthnasol) o'r fanyleb <b>a fydd yn cael ei asesu</b> yn yr uned hon, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel neu synoptig.</p>

Pwnc	Lefel	Crynodeb o'r Wybodaeth Ymlaen Llaw
Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Diploma)	Lefel 3	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 2 ac Uned 5</b></li> <li>darparu rhestr o gynnwys y pwnc (h.y. cynnwys ac ymhelaethiad perthnasol) o'r fanyleb a <b>fydd yn cael ei asesu</b> ym mhob uned, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel neu synoptig.</p>
Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau	Lefel 2	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 1</b></li> <li>darparu rhestr o gynnwys y pwnc (h.y. cynnwys ac ymhelaethiad perthnasol) o'r fanyleb a <b>fydd yn cael ei asesu</b> yn yr uned hon, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel neu synoptig.</p>
Hanes	UG a Safon Uwch	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 1 ac Uned 3 yn unig</b></li> <li>nodi'r cysyniadau a'r persbectifau y gellir eu trafod yn yr asesiad Uned 1</li> <li>nodi'r cysyniadau a'r persbectifau y mae ymgeiswyr yn debygol o gyfeirio atyn nhw yn asesiad Uned 3</li> <li>cael ei chymhwyso'n gyson at bob papur opsiynol, h.y. pob un o'r wyth opsiwn Uned 1 a phob un o'r deg opsiwn Uned 3.</li> </ul>
Hanes	TGAU	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>unedau 1, 2 a 3</b></li> <li>nodi'r pum cwestiwn allweddol a'r meysydd o'r cynnwys gofynnol a <b>fydd yn cael eu hasesu</b> ym mhob papur Uned 1 ac Uned 2</li> <li>nodi'r chwe chwestiwn allweddol a'r meysydd o gynnwys gofynnol a <b>fydd yn cael eu hasesu</b> ym mhob papur Uned 3.</li> </ul> <p>Cyflwynir y cwestiynau allweddol yn nhrefn y fanyleb, yn hytrach na threfn y cwestiynau.</p>
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	UG a Safon uwch	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 1 ac Uned 3</b></li> <li>darparu rhestr o gynnwys o'r fanyleb a <b>fydd yn cael ei asesu</b> ym mhob uned, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael ei asesu</b> mewn cwestiynau tariff isel neu synoptig.</p>

Pwnc	Lefel	Crynodeb o'r Wybodaeth Ymlaen Llaw
Y Gyfraith	UG a Safon Uwch	Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>unedau 1, 2, 3 a 4</b></li> <li>darparu rhestr o gynnwys o'r fanyleb <b>a fydd yn cael ei asesu</b> ym mhob uned, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul>
Mathemateg	UG a Safon Uwch	Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl fanylebau CBAC TAG Mathemateg a Mathemateg Bellach. Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>unedau 1, 2, 3 a 4</b></li> <li>darparu rhestr o gynnwys o'r fanyleb <b>a fydd yn cael ei asesu</b> ym mhob uned, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul>
Mathemateg	TGAU	Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl fanylebau CBAC TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg – Rhifedd. Bydd yr un dull yn cael ei ddefnyddio yn haf 2023 ag a ddefnyddiwyd ar gyfer arholiadau Tachwedd 2022. Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i bob haen yn <b>Uned 1 ac Uned 2</b></li> <li>wedi'i chyflwyno mewn dwy ran <ul style="list-style-type: none"> <li>yn y rhan gyntaf mae cyfres o osodiadau i egluro'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd wedi'u tybio ar gyfer arholiadau Haf 2023, fel ym mhob cyfres arholiadau.</li> <li>yn yr ail ran, ar ffurf tabl, dangosir y testunau <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> yn arholiadau Haf 2023, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> </li> </ul>
Mathemateg – Rhifedd	TGAU	Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl fanylebau CBAC TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg – Rhifedd. Bydd yr un dull yn cael ei ddefnyddio yn haf 2023 ag a ddefnyddiwyd ar gyfer arholiadau Tachwedd 2022. Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i bob haen yn <b>Uned 1 ac Uned 2</b></li> <li>wedi'i chyflwyno mewn dwy ran <ul style="list-style-type: none"> <li>yn y rhan gyntaf mae cyfres o osodiadau i egluro'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd wedi'u tybio ar gyfer arholiadau Haf 2023 , fel ym mhob cyfres arholiadau.</li> <li>yn yr ail ran, ar ffurf tabl, dangosir y testunau <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> yn arholiadau Haf 2023, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> </li> </ul>

Pwnc	Lefel	Crynodeb o'r Wybodaeth Ymlaen Llaw
Astudio'r Cyfryngau	UG a Safon Uwch	Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 1 (adrannau A a C yn unig) ac Uned 3 (adrannau A, B a C)</b></li> <li>nodi natur yr adnodd heb ei weld o'r blaen (print neu glyweledol) yn Uned 1, Adran A</li> <li>nodi'r cysyniad allweddol a <b>fydd yn cael ei asesu</b> yn y cwestiwn tariff uwch yn Uned 1, Adran C</li> <li>nodi pa set o gynhyrchion y cyfryngau a <b>fydd yn cael ei gynnwys</b> ym mhob rhan o Uned 3 .</li> </ul>
Astudio'r Cyfryngau	TGAU	Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 1 (adran A yn unig) ac Uned 2 (adran A ac adran B)</b></li> <li>nodi natur yr adnodd heb ei weld o'r blaen (print neu glyweledol) yn Uned 1, Adran A</li> <li>darparu rhestr o destunau o'r fanyleb a <b>fydd yn cael eu hasesu</b> yn Uned 2, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul>
Cerddoriaeth	UG a Safon Uwch	Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 3 ac Uned 6</b></li> <li>nodi symudiadau'r gweithiau gosod o Faes Astudio A a fydd wedi'u cynnwys yn Uned 3, Adran 2</li> <li>nodi'r gweithiau ategol o Faes Astudio Dd, Llinynnau 1 a 2 a fydd wedi'u cynnwys yn Uned 6, Adran 1</li> <li>nodi'r cyfansoddwyr/artistiaid y mae'r asesiad yn canolbwyntio arnyn nhw ym Maes Astudio Dd, Llinynnau 3, 4 a 5 yn Uned 6, Adran 2.</li> </ul>
Cerddoriaeth	TGAU	Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 3 yn unig</b></li> <li>nodi'r adran o'r dyfyniadau wedi'u paratoi y bydd yr asesiad yn canolbwyntio arno</li> <li>nodi genres y dyfyniadau heb eu paratoi</li> <li>nodi'r hyn y bydd yr ymateb estynedig yn canolbwyntio arno</li> <li>nodi'r cleff a'r hyn mae'r asesiad yn canolbwyntio arno (h.y., traw neu rythm) yn y cwestiwn trawsgrifio.</li> </ul>
Addysg Gorfforol	UG a Safon Uwch	Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 1 ac Uned 3</b></li> <li>darparu rhestr o destunau o'r fanyleb a <b>fydd yn cael eu hasesu</b> ym mhob papur, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw destunau sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael eu hasesu</b> mewn cwestiynau tariff isel, dewis lluosog, atebion byr a synoptig.</p>

Pwnc	Lefel	Crynodeb o'r Wybodaeth Ymlaen Llaw
Addysg Gorfforol	TGAU	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 1 yn unig</b></li> <li>darparu rhestr o destunau o'r fanyleb <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> yn y papur, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw destunau sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael eu hasesu</b> mewn cwestiynau tariff isel, dewis lluosog, atebion byr a synoptig.</p>
Addysg Gorfforol	TGAU cwrs byr	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 1 yn unig</b></li> <li>darparu rhestr o destunau o'r fanyleb <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> yn y papur, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw destunau sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael eu hasesu</b> mewn cwestiynau tariff isel, dewis lluosog, atebion byr a synoptig.</p>
Ffiseg	UG a Safon Uwch	<p>Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl gymwysterau CBAC TAG Gwyddoniaeth.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>unedau 1, 2, 3, 4 a 5</b></li> <li>darparu rhestr o destunau o'r fanyleb <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> ym mhob papur</li> <li>rhestru testunau yn eu trefn restrol gyda'r testun â'r nifer mwyaf o farciau yn dod yn gyntaf ar gyfer pob papur; gall testunau sydd heb eu cynnwys yn benodol ar y rhestr ymddangos ar y papur o hyd. Fodd bynnag, ni fydd cymaint o farciau ar gael am y rhain yn gyffredinol â'r hyn sydd ar gael am y rhai ar y rhestr.</li> </ul> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw hefyd yn nodi testunau sy'n cynnwys asesiad o waith ymarferol.</p>
Ffiseg	TGAU	<p>Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl gymwysterau CBAC TGAU Gwyddoniaeth.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 1 ac Uned 2</b></li> <li>darparu rhestr o destunau o'r fanyleb <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> ym mhob papur</li> <li>rhestru testunau yn eu trefn restrol gyda'r testun â'r nifer mwyaf o farciau yn dod yn gyntaf ar gyfer pob papur.</li> </ul> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw hefyd yn nodi testunau sy'n cynnwys asesiad o waith ymarferol.</p>



Pwnc	Lefel	Crynodeb o'r Wybodaeth Ymlaen Llaw
Seicoleg	UG a Safon Uwch	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i Uned 1, Uned 2 (Adran A) ac Uned 3 (y ddwy adran)</li> <li>darparu rhestr o gynnwys y pwnc o'r fanyleb <b>o ble y bydd yr asesiadau'n dod</b> yn yr unedau a nodwyd, (h.y. <i>dulliau</i> ar gyfer Uned 1, <i>dadleuon cyfoes</i> ar gyfer Uned 2 ac <i>ymddygiadau</i> a <i>materion dadleuol</i> ar gyfer Uned 3), yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw gynnwys sydd ddim ar y rhestr yn dal i gael ei asesu mewn cwestiynau synoptig.</p>
Astudiaethau Crefyddol	UG a Safon Uwch	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>unedau 1, 2, 3, 4, 5 a 6</b></li> <li>nodi'r themâu/is-themâu y bydd yr asesiad ym mhob papur yn canolbwyntio arnyn nhw</li> <li>cael ei chymhwyso'n gyson at bob papur opsiynol.</li> </ul> <p>Dylai ymatebion ddefnyddio meysydd eraill o gynnwys y fanyleb a ffurfio cysylltiadau synoptig lle bo'n berthnasol gwneud hynny.</p>
Astudiaethau Crefyddol	TGAU	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 1 ac Uned 2</b></li> <li>nodi'r meysydd testun cyffredinol o'r fanyleb y bydd y cwestiynau AA2 ar draws yr unedau yn canolbwyntio arnyn nhw</li> <li>cael ei chymhwyso'n gyson at bob papur opsiynol.</li> </ul>
Astudiaethau Crefyddol (Diwinyddiaeth Gatholig ac Iddewiaeth)	TGAU	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 1 ac Uned 3</b></li> <li>nodi'r meysydd testun cyffredinol o'r fanyleb y bydd y cwestiynau AA2 ar draws yr unedau yn canolbwyntio arnyn nhw</li> <li>cael ei chymhwyso'n gyson at bob papur opsiynol.</li> </ul>
Astudiaethau Crefyddol	TGAU cwrs byr	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>berthnasol i <b>Uned 1 yn unig</b></li> <li>nodi'r meysydd testun cyffredinol o'r fanyleb y bydd y cwestiynau AA2 ar draws Uned 1 yn canolbwyntio arnyn nhw</li> <li>cael ei chymhwyso'n gyson at bob papur opsiynol.</li> </ul>

Pwnc	Lefel	Crynodeb o'r Wybodaeth Ymlaen Llaw
Gwyddoniaeth (dwyrradd)	TGAU	<p>Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl gymwysterau CBAC TGAU Gwyddoniaeth.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>unedau 1, 2, 3, 4, 5 a 6</b></li> <li>• darparu rhestr o destunau o'r fanyleb <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> ym mhob papur</li> <li>• rhestru testunau yn eu trefn restrol gyda'r testun â'r nifer mwyaf o farciau yn dod yn gyntaf ar gyfer pob papur.</li> </ul> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw hefyd yn nodi testunau sy'n cynnwys asesiad o waith ymarferol.</p>
Cymdeithaseg	UG a Safon Uwch	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 1 ( y ddwy adran), Uned 2 (Adran B) ac Uned 3</b></li> <li>• darparu rhestr o destunau (h.y. cynnwys ac ymhelaethiad) o'r fanyleb <b>a fydd yn cael eu hasesu</b> yn y papurau arholiad, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul> <p>Mae'n bosibl y bydd unrhyw destunau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr isod <b>yn dal i gael eu hasesu</b> mewn cwestiynau tariff isel.</p>
Sbaeneg	UG a Safon Uwch	<p>Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl gymwysterau CBAC TAG ITM.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>adrannau B a C yn Uned 2 ac adrannau B a C yn Uned 4</b></li> <li>• nodi'r meysydd o ddiddordeb, themâu ac is-themâu o'r fanyleb y <b>bydd</b> yr asesiad yn <b>canolbwyntio</b> arnyn nhw, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau.</li> </ul>
Sbaeneg	TGAU	<p>Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl gymwysterau CBAC TGAU ITM.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 2, Uned 3 ac Uned 4</b></li> <li>• nodi'r themâu, is-themâu ac is-is-themâu o'r fanyleb y <b>bydd yr asesiad yn canolbwyntio arnyn nhw</b>, yn nhrefn y fanyleb yn hytrach na threfn y cwestiynau</li> <li>• ar gael ar gyfer y papurau haen Sylfaenol a haen Uwch.</li> </ul>

Pwnc	Lefel	Crynodeb o'r Wybodaeth Ymlaen Llaw
Cymraeg Iaith	UG a Safon Uwch	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 3, Uned 5 ac Uned 6</b></li> <li>• nodi amrediad llai o gerddi gosod i fod yn destun <b>asesiad</b> ymgeiswyr yn Uned 3</li> <li>• nodi'r hyn y mae'r asesiad yn y cwestiwn dadansoddi yn Adran A yr arholiad Uned 5 yn canolbwyntio arno</li> <li>• darparu rhestr o ffurfiau ysgrifennu y bydd yr asesiad yn Uned 6 yn canolbwyntio arnyn nhw.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd</b> unrhyw destunau sydd ddim ar y rhestr <b>yn dal i gael eu hasesu</b> mewn cwestiynau tariff isel, dewis lluosog neu gwestiynau synoptig.</p>
Cymraeg Iaith	TGAU	<p>Bydd yr un dull yn cael ei ddefnyddio yn haf 2023 ag a ddefnyddiwyd ar gyfer arholiadau Tachwedd 2022.</p> <p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 2 ac Uned 3</b></li> <li>• nodi a fydd y cwestiwn darllen cymharu neu grynhoi yn ymddangos yn Adran A yr arholiad Uned 2</li> <li>• nodi pa ffurfiau ysgrifennu a fydd yn ymddangos yn Adran B yr arholiad Uned 3.</li> </ul>
Llenyddiaeth Gymraeg	TGAU	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 1 ac Uned 2</b></li> <li>• nodi amrediad llai o gerddi gosod i fod yn destun <b>asesiad</b> ymgeiswyr yn Uned 1</li> <li>• nodi'r cymeriadau o'r nofelau gosod a fydd yn destun <b>asesiad</b> ymgeiswyr yn Uned 2.</li> </ul>
Cymraeg Ail Iaith	UG a Safon Uwch	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 3 (adran A), Uned 5 (adran B) ac Uned 6 (adran B)</b></li> <li>• nodi'r math o ymarfer ieithyddol yn Uned 3, adran A</li> <li>• nodi'r ffurf ysgrifennu yn Uned 5, adran B.</li> </ul> <p>Yn ogystal, ar 15 Mai 2023, byddwn yn rhyddhau ymlaen llaw y teitl ar gyfer y stori fer y bydd asesiad Uned 6, adran B yn canolbwyntio arni.</p>
Cymraeg Ail Iaith	TGAU	<p>Bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• berthnasol i <b>Uned 3 (adran C) ac Uned 4 (adran C)</b></li> <li>• nodi themâu eang a ffurfiau ysgrifenedig y bydd y cwestiwn ysgrifennu estynedig yn adran C yn Uned 3 ac Uned 4 yn canolbwyntio arnyn nhw.</li> </ul>